



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys i:

Adolygiad cyflym Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF i blismona anhrefn cyhoeddus – Tranche 2

Rwy'n cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn a byddaf yn monitro cynnydd yr heddlu wrth eu gweithredu. Trafodwyd ymateb yr heddlu i'r arolygiad hwn yn y Bwrdd Plismona ar 17 Mehefin 2025. Dyma'r fforwm lle rwy'n dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau plismona ar draws ardal Dyfed-Powys.

Rwyf wedi nodi fy meddyliau a'r sicrwydd a gefais gan y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r argymhellion isod.

Argymhelliad 1: Dylai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a phrif gwnstabliaid weithredu ar unwaith i greu cynllun a dechrau gweithio i wella sut mae'r gwasanaeth heddlu yn casglu, dadansoddi a chyfleu cuddwybodaeth am anhrefn. Dylent gynllunio i:

- sefydlu rhwydweithiau, swyddogaethau a phrosesau cuddwybodaeth clir a gwydn i helpu'r gwasanaeth heddlu i ymateb i argyfyngau cenedlaethol sy'n cynnwys anhrefn yn fwy effeithiol;
- profi'r trefniadau hyn, ar ôl iddynt gael eu sefydlu;
- rhoi mwy o gapasiti a gallu cuddwybodaeth strategol a briffio i Ganolfan Cydgysylltu Genedlaethol yr Heddlu i gefnogi'r gwasanaeth heddlu i adnabod, dadansoddi ac ymateb i wybodaeth a chuddwybodaeth am anhrefn, yn enwedig ar adegau o argyfwng cenedlaethol;
- blaenoriaethu casglu, dadansoddi a dosbarthu cuddwybodaeth am anhrefn a thensiwn cymunedol;
- sicrhau bod asesiadau cuddwybodaeth strategol mynych, cywir a chynhwysfawr am fygythiad a risg anhrefn yn cael eu hadlewyrchu mewn asesiadau risg strategol diogelwch y cyhoedd yn ymwneud â threfn gyhoeddus;
- adolygu sut mae'r gwasanaeth heddlu yn dosbarthu ac yn casglu cuddwybodaeth am anhrefn i'w helpu i asesu'r bygythiadau yn well, gan gynnwys a yw categorïau cuddwybodaeth fel "cenedlaetholdeb diwylliannol" ac "eithafiaeth ddomestig" yn berthnasol ac yn cael eu deall ar draws plismona;
- sicrhau bod gan bob rhanbarth heddlu dîm neu swyddogaeth cuddwybodaeth a all asesu'r bygythiad o anhrefn, yr awgrymwn y gallai hyn fod yn rhan o bob canolfan wybodaeth a chydlynu ranbarthol; a

- **sicrhau bod timau plismona bro yn chwarae rhan ganolog wrth helpu heddluoedd i ddeall hwyliau, teimladau a thensiwn cymunedol yn well.**

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys broses sefydledig ar gyfer nodi a rhannu cuddwybodaeth sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol ac argyfyngau cenedlaethol. Mae sganio dyddiol yn digwydd gan Swyddfa Cuddwybodaeth yr Heddlu cyn cyfarfod briffio bygythiad a niwed am 9.15am. Adolygir ffynonellau cuddwybodaeth a gwybodaeth newydd ar System Gofnodi Digwyddiadau a Defnydd o Adnoddau STORM, mewnflwch Adran Cuddwybodaeth yr Heddlu a Niche sy'n ymwneud â phob bygythiad gan gynnwys anhrefn cyhoeddus yn y sesiwn friffio hon. Mae pob uned reoli sylfaenol yn adolygu eu cuddwybodaeth eu hunain sy'n ymwneud â bygythiad, niwed ac anhrefn yn eu maes cyfrifoldeb.

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys ddau ymchwilydd rhwydwaith cyfrifiadurol sydd â chapasiti cyfyngedig i sganio am fygythiadau anhysbys nad ydynt yn cael eu codi trwy guddwybodaeth a gwybodaeth. Mae hwn yn fwch cyfredol yn y cynllun casglu cuddwybodaeth. Byddaf yn cysylltu â'r heddlu i benderfynu sut maen nhw'n ceisio mynd i'r afael â hyn.

Yn ystod y cyfarfod briffio bygythiad a niwed, bydd y cadeirydd yn rhoi tasgau i staff sy'n ymwneud ag unrhyw niwed neu anhrefn risg uchel i'w datblygu ymhellach ac i wella'r darlun cuddwybodaeth. Mae gwybodaeth a chuddwybodaeth frys sy'n ymwneud â bygythiad a niwed uniongyrchol yn cael ei huwchgysyfeirio i'r grwpiau aur ac arian i'w hasesu'n frys ar gyfer ymateb plismona ar unwaith.

Mae'r adran Gweithrediadau Arbennig yn casglu ac yn casglu tystiolaeth o unrhyw achosion o fygythiad, niwed a risg uchel. Byddant hefyd yn ceisio nodi pobl o ddiddordeb ar gyfer ymchwiliad pellach ac yn adrodd yn ôl ar unrhyw gamau gweithredu arfaethedig gydag amseroedd, dyddiadau a lleoliadau.

Gellir rhannu unrhyw guddwybodaeth sydd angen ei rhannu â staff ehangach yn fewnol drwy ddogfen friffio (PowerBi) neu guddwybodaeth weithredol ar gyfer yr holl staff. Bydd Porth Dorset yn darparu ffordd well o ledaenu gwybodaeth i staff unwaith y bydd y system ar waith. Byddaf yn cysylltu â'r heddlu i wirio cynnydd gweithredu'r system hon.

Gellir rhannu unrhyw wybodaeth y mae angen ei rhannu'n allanol â heddluoedd eraill drwy flwch derbyn adran cuddwybodaeth yr heddlu. Caiff unrhyw geisiadau brys eu dosbarthu i reolwr digwyddiadau'r heddlu yn dibynnu ar lefel y risg a'r brys.

Rhennir unrhyw wybodaeth frys y mae angen ei rhannu ag aelodau'r cyhoedd gyda chydysyniad cadeirydd cyfarfod rheoli dyddiol yr heddlu am 10am drwy'r tîm cyfathrebu corfforaethol. Mewn achosion brys, gellir ceisio awdurdod llafar ymlaen llaw.

Rwyf wedi cael gwybod y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu am 9.30am â chyfarfod briffio lleol rheolwyr yr Uned Reoli Sylfaenol. Yna gall y cadeirydd lleol

roi tasgau i dimau plismona ac atal bro ac adnoddau eraill. Gall cadeirydd yr Uned Reoli Sylfaenol hefyd ystyried a oes angen llunio asesiad tensiwn cymunedol a phwy ddylai fod yr arolygydd cyfrifol am oruchwyllo'r asesiad. Bydd hyn yn asesu lefel y bygythiad yn lleol a lefel y tensiwn o fewn y gymuned.

Dylid bwydo unrhyw wybodaeth a deallusrwydd a gesglir o unrhyw un o'r asesiadau uchod yn ôl i Adran Cuddwybodaeth yr Heddlu canolog (a fyddai wedi nodi swyddog penodol cuddwybodaeth maes) i oruchwyllo'r cynllun casglu a lledaenu.

Byddai unrhyw gynnydd neu fygythiad yn cael ei fwydo i grwpiau aur neu arian yn dibynnu ar lefel y risg.

Yn dibynnu ar lefel y bygythiad, rhoddir ystyriaeth i ddyrannu enw gweithredol i'r bygythiad. Mae hyn yn rhoi pwynt cyswllt unigol i bob aelod o staff i gefnogi casglu cuddwybodaeth gan y gellir casglu'r holl guddwybodaeth a deallusrwydd mewn un 'digwyddiad' o fewn Niche. Mae hyn hefyd yn sicrhau y gellir adolygu'r wybodaeth yn barhaus i asesu lefel y bygythiad a lledaenu unrhyw guddwybodaeth newydd yn ôl yr angen.

Mewn achosion risg uchel, gellir cynnull grŵp aur sy'n cynnwys partneriaid mewnol ac allanol i liniaru risg.

Mewn achosion eithafol, gall arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu gysylltu â gwasanaethau cuddwybodaeth strategol rhanbarthol a chenedlaethol mewn cyfnodau o anhrefn cyhoeddus difrifol neu amgylchiadau sy'n debygol o arwain at argyfwng cenedlaethol.

Rwyf wedi cael gwybod y bydd Adran Cuddwybodaeth yr Heddlu yn casglu data ar faterion trefn gyhoeddus risg isel yn wythnosol ac yn eu rhannu â staff yr Unedau Rheoli Sylfaenol i sicrhau bod timau plismona ac atal bro yn ymgysylltu. Byddaf yn gofyn i'r heddlu'n uniongyrchol am yr wybodaeth ddiweddaraf am hyn er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu mewn modd amserol.

Argymhelliad 2: Dylai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a phrif gwnstabiliaid, gan gydweithio â'r Swyddfa Gartref, weithredu ar unwaith i greu cynllun a dechrau gweithio i ddeall ac ymateb yn well i'r risg sy'n gysylltiedig â chynnwys ar-lein. Dylent gynllunio i:

- sicrhau bod digon o gapasiti a gallu ar lefel yr heddlu, y rhanbarth a'r genedl i fonitro, dadansoddi ac ymateb i gynnwys ar-lein;
- sicrhau bod gan heddluoedd y capasiti a'r gallu i reoli risg o gynnwys ar-lein drwy drefniadau cyfathrebu effeithiol;
- nodi'r ystod lawn o atebion technegol y mae'r gwasanaeth heddlu yn eu defnyddio neu y gallai eu defnyddio i wella monitro a dadansoddi cuddwybodaeth a deallusrwydd ar-lein am anhrefn, ac ymatebion iddo;
- adolygu a yw darpariaethau yn Neddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn addas at y diben i gefnogi plismona yn ei ymateb i anhrefn; a

- **gwella strwythurau a threfniadau ar gyfer cysylltu a chefnogi rhwng y gwasanaeth heddlu, adrannau'r llywodraeth a darparwyr gwasanaethau ar-lein.**

Rwyf wedi cael gwybod bod dau Ymchwilydd Rhwydwaith Cyfrifiadurol Heddlu Dyfed-Powys yn bwriadu ymweld â'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol i sefydlu pa atebion technegol, llwyfannau a meddalwedd sydd ar gael i gynorthwyo Heddlu Dyfed-Powys yn y maes busnes hwn.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gweithio'n agos gyda thimau cydgysylltu yr awdurdodau lleol sy'n cynnal sganio ar-lein yn rheolaidd.

Ar hyn o bryd mae datrysiad technegol cyfyngedig ar gael i'r ymchwilwyr rhwydwaith cyfrifiadurol yn yr ardal hon. Fodd bynnag, maent yn cynnal sganio ac ymchwil trwy lwyfannau ar-lein pe bai gwybodaeth neu guddwybodaeth yn cael ei hadrodd yn ymwneud ag anhrefn. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cynnal gwaith tebyg ac mae hyn yn helpu i gadarnhau a chydgrynhoi'r gwaith y mae ymchwilwyr y rhwydwaith wedi'i wneud.

Mae prosesau rhannu partneriaeth da rhwng yr heddlu a'r awdurdod lleol a gellir lledaenu unrhyw guddwybodaeth a dderbynnir yn unol ag argymhelliad 1. Rhennir gwybodaeth drwy'r Ffurflen Cuddwybodaeth Partneriaeth yn uniongyrchol i flwch derbyn Adran Cuddwybodaeth yr Heddlu ac mewn achosion brys drwy Reolwr Digwyddiadau'r Heddlu i'w rhoi ar System Gofnodi Digwyddiadau a Defnydd o Adnoddau (STORM).

Gellir cael cefnogaeth ehangach gan yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol drwy'r Grŵp Cuddwybodaeth Rhanbarthol a gwneir ceisiadau brys ar lafar.

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn gymharol newydd gyda rhai camau'n dal i gael eu cyflwyno yn 2025. Mae'r heddlu wedi datgan mai un o fanteision y ddeddf yw y bydd gan lwyfannau ar-lein ddyletswydd gofal nawr a ddylai wneud cynorthwyo'r heddlu gydag ymholiadau a cheisiadau yn fwy effeithlon.

Yn aml, mae'r gwasanaethau cuddwybodaeth strategol cenedlaethol a'r Swyddfa Gartref yn anfon cais at Adran Cuddwybodaeth yr Heddlu i roi gwybod am unrhyw wybodaeth a chuddwybodaeth pe bai anhrefn cenedlaethol neu risg o anhrefn cenedlaethol. Mae ymchwilwyr yn gyfrifol am anfon y ffurflenni hyn yn ôl ac mae perthynas waith ar waith. Mae ymchwilwyr rhwydwaith cyfrifiadurol yn bwydo unrhyw guddwybodaeth a gwybodaeth a gesglir i'r ymchwilwyr i sicrhau bod yr holl wybodaeth gyfredol yn cael ei rhannu â'r partïon perthnasol.

Argymhelliad 3: Dylai Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a phrif gwnstablaid, gan gydweithio â Choleg yr Heddlu, weithredu ar unwaith i greu cynllun a dechrau gweithio i wella sut mae'r gwasanaeth heddlu yn ymchwilio i droseddau sy'n gysylltiedig ag anhrefn ar raddfa fawr. Dylent gynllunio i:

- **ddiwygio'r gofyniad plismona strategol trefn gyhoeddus a diogelwch y cyhoedd i gynnwys a nodi'r ystod o adnoddau ymchwiliol y gellir eu defnyddio pan fydd y cynllun gweithredu ar lefel genedlaethol yn cael ei actifadu;**
- **sicrhau bod uwch-swyddogion ymchwilio yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad i reoli ymchwiliadau i anhrefn eang yn well;**
- **sicrhau bod cynllun neu strategaeth ymchwilio y gellir ei defnyddio gan bob heddlu ar adegau pan fydd yr heddlu'n cael ei alw i weithredu ar lefel genedlaethol i fynd i'r afael ag anhrefn; a**
- **sicrhau bod pob heddlu'n cynnal sesiynau ôl-drafod strwythuredig o ddrwgdybiedigion a throseddwyr yn rheolaidd, er mwyn cael tystiolaeth neu guddwybodaeth bosibl am anhrefn.**

Rwyf wedi cael gwybod bod Canolfan Gwybodaeth a Chydlynu Ranbarthol Cymru wedi nodi'r gofynion cymorth cydfuddiannol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, Gwent a De Cymru pan fo angen gweithredu ar lefel genedlaethol.

Rwyf wedi cael sicrwydd y bydd briffiau i bob uwch-swyddog ymchwilio yn cael eu cynnal yn ystod y 12 mis nesaf yng nghynhadledd yr Uwch Adran Ymchwilio i Droseddau. Yn ogystal â hyn, bydd cynllun ymchwilio'r drefn gyhoeddus Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei greu a'i ddosbarthu i'r adran Cynllunio Gweithrediadau i'w gadw a'i ddefnyddio wrth ddefnyddio cynllun gweithredu ar lefel genedlaethol. Bydd canllawiau'n cael eu hymgorffori yn y cynllun hwn i sicrhau bod sesiynau dadfriffio strwythuredig o ddrwgdybiedigion a throseddwyr, er mwyn cael tystiolaeth neu guddwybodaeth bosibl am anhrefn, yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Rwy'n aros am ragor o wybodaeth am yr argymhellion hyn gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, y Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona i sicrhau bod eu canllawiau'n gydnaws â phrosesau Heddlu Dyfed-Powys.

Rwy'n sicr bod gan yr heddlu brosesau ar waith i sicrhau bod rhannu gwybodaeth mor effeithlon â phosibl. Rwyf hefyd wedi fy nghalonogi bod yr heddlu yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gryfhau'r darlun cuddwybodaeth maen nhw'n ei gael.

Rwy'n ddiolchgar eich bod wedi cyhoeddi'r argymhellion hyn. Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchir drwy weithgarwch Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi i wella'r gwasanaeth plismona ar gyfer trigolion ardal Dyfed-Powys.